

Darparu cynqor a chymorth i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gynllunio llesiant

Annwyl aelodau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a thimau cynorthwyol,

Rwy'n ysgrifennu i nodi sut y byddaf yn mynd ati i gwrdd â fy nyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i'ch cynghori a'ch cynorthwyo wrth i chi bennu eich amcanion llesiant ar y cyd, a chyhoeddi eich cynlluniau llesiant yn ystod y flwyddyn sy'n dod. Er bod y llythyr hwn wedi ei gyfeirio at aelodau a swyddogion sy'n cynorthwyo Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau), os gwelwch yn dda rhannwch yr wybodaeth hon gyda swyddogion o fewn eich sefydliad sy'n gyfrifol am gynllunio corfforaethol, perfformiad, craffu, datblygu cynaliadwy a swyddogion eraill y byddai'r wybodaeth o bosibl yn ddefnyddiol iddynt.

Fel y gwyddoch, cynigir i mi ddau gyfle o fewn y Ddeddf i ddylanwadu a chynorthwyo eich cyd-gynllunio llesiant eleni. Yn gyntaf, rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) ofyn am fy nghyngor ar sut i gymryd camau tuag at gwrdd â'u hamcanion lleol yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Rhaid i mi ddarparu fy nghyngor yn ysgrifenedig ac mae gen i 14 wythnos i wneud hyn. Yn ail, rwyf yn un o nifer o ymgynghorion statudol y byddwch yn ymgynghori â nhw wrth lunio eich cynllun llesiant drafft nes ymlaen yn y flwyddyn am gyfnod o 12 wythnos ar y man lleiaf.

Mae'r Ddeddf yn nodi y dylai'r ddwy broses fod ar wahân i'w gilydd, sy'n caniatáu i mi ymgysylltu â chi ar yr adeg hollbwysig pan fyddwch yn ystyried y camau y gallech eu cymryd i gwrdd â'r amcanion drwy ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Mae'r llythyr hwn yn disgrifio mewn peth manylder sut yr wyf yn gweld fy rôl a rôl fy nhîm yn y meysydd cyffredinol canlynol o gymorth a her adeiladol:

1. **Parhau gyda'r sgwrs:** adeiladu ar y berthynas a sefydlwyd rhyngoch chi a fy nhîm i ddarganfod dull o ddefnyddio'r cyfnod 14 wythnos sydd ar gael I ni mewn modd a fydd yn fanteisiol i ni
2. **Gweithredu fel 'cysylltydd':** defnyddio'r themâu sy'n dod i'r amlwg o'r asesiadau llesiant parhaus fel canllaw ar gyfer eich cysylltu â phartneriaid eraill a darparu rhaglen hwylus, gynorthwyol sy'n helpu eich BGC i gynllunio ar y cyd ar gyfer llesiant dros y flwyddyn sy'n dod ac yn y dyfodol.
3. **Adnabod a dileu rhwystrau:** gweithio gyda chi i ddeall y dull gorau o'ch helpu i ddileu rhwystrau sy'n eich atal rhag defnyddio'r Ddeddf yn effeithiol.

Yn dilyn fy sgwrsiau ag aelodau BGCau, cydlynwyr, timau cymorth a swyddogion eraill y sector cyhoeddus/gwirfoddol gwn fod llawer ohonoch wedi cychwyn ystyried eich amcanion drafft fel BGCau. Mewn paratoad ar gyfer y flwyddyn sy'n dod, hoffwn gymryd y cyfle hwn i egluro rhai pwyntiau'n ymwneud â phennu amcanion llesiant:

- **Gweld y Ddeddf fel un ddefnyddiol** - rwyf wedi siarad lawer gwaith am beidio gadael i'r Ddeddf ddod yn ymarfer 'seiliedig ar gydymffurfiaeth'. Wrth ddweud hyn, golygaf fod gennym gyfle gwirioneddol i herio'r modd y mae Cymru'n gweithio i greu gwell dyfodol i'n cenedl a dylech weld y

Ddeddf fel dull defnyddiol o herio'r modd y caiff penderfyniadau eu gwneud, fel fframwaith ar gyfer cynllunio a gwerthuso, ac fel dull o newid y modd y mae canolfannau corfforaethol eich sefydliad ar hyn o bryd yn gweithredu. Nid yw hon yn dasg hawdd, ond mae'n hollbwysig eich bod yn dangos arweinyddiaeth gadarn a pharodrwydd i newid, a phennu eich amcanion llesiant yw'r cyfarwyddyd cyntaf y byddwch yn ei roi i'ch sefydliad o dan y Ddeddf.

- **Defnyddiwch lens y Ddeddf** - wrth ddweud hyn rwy'n golygu y dylai amcanion gael eu penderfynu drwy ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum dull o weithio i lunio eich syniadau. Hwn ddylai fod eich man cychwyn ar gyfer pennu eich amcanion, yn hytrach na ffocysu'n unig ag y saith nod llesiant neu'r dangosyddion llesiant cenedlaethol.
- **Cyfrannwch i eithaf eich gallu tuag at y saith nod llesiant cenedlaethol** - dywed y Ddeddf y dylai amcanion gael eu hintegreiddio h.y. dylech ystyried sut y mae amcan yn effeithio ar bob un o'r nodau. Os yr ydych wedi defnyddio'r pum dull o weithio'n effeithiol, gall y bydd hyn yn eich annog i ystyried sut y mae angen i chi gydweithio gydag eraill ac ennyn ymgyfraniad 'y bobl arferol' i gwrdd â'r amcan.
- **Dewiswch eich targedau** - ni ddylai amcanion llesiant fod yn seiliedig ar 'fusnes fel arfer', gan gwmpasu popeth sydd angen i gyrrff cyhoeddus eu gwneud yn unigol neu ar y cyd. Rwyf wedi dweud eisoes y gallai ffocysu'n drylwyr ar nifer llai o faterion a defnyddio lens y Ddeddf i edrych arnynt yn wahanol, gael effaith drawsffurfiol ar lesiant pobl Cymru.

Bu fy nhîm yn ddiweddar wrthi'n ennyn ymgyfraniad aelodau BGCau, cydlynwyr, timau cymorth, Llywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a swyddogion eraill y sector cyhoeddus/gwirfoddol i ddeall y ffordd orau o'ch galluogi i gael y budd pennaf o'r cyngor a'r cymorth a gynigir i chi. Ar sail yr hyn yr ydym wedi ei glywed hyd yn hyn, bwriad y llythyr hwn yw darparu ar eich cyfer drosolwg arwyddol o fy ymagwedd ar gyfer y flwyddyn hon, yn y cyfnod sy'n arwain at gyhoeddi eich cynlluniau llesiant cyntaf a buaswn yn eich annog i roi gwybod i mi os oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill am y dull o wneud y cyfnod hwn mor effeithiol a defnyddiol â phosib i chi.

Rwy'n dymuno pwysleisio eto mai proses ddysgu yw hon, gyda'r BGCau a fy swyddfa i fy hunan yn gweithio tuag at y nod hirdymor o wella gwasanaethau cyhoeddus i bobl Cymru yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae gen i fwy o ddi-ddordeb yn y modd yr ydych yn addasu'r dulliau o weithio gyda'ch gilydd gan ddefnyddio'r Ddeddf fel lens ar gyfer cynllunio, herio a gwerthuso eich gweithredoedd, nag mewn cynnyrch sy'n rhaid ei gynhyrchu i gwrdd â dyddiad cau. Gobeithiaf y byddwch yn cytuno y bydd yr ymagwedd a fabwysiedir gan fy nhîm tuag at eich cynorthwyo i wneud hyn, yn un sydd mor fanteisiol â phosibl i aelodau a thimau BGCau ar draws Cymru.

1. Parhau i sgwrsio

Y gwaith yr ydych yn parhau i'w gyflawni ar eich asesiadau llesiant, gellid dadlau, yw'r prawf cyntaf o'r Ddeddf yn cael ei gweithredu'n ymarferol. Rwyf wedi cael y fraint o weld yr holl asesiadau ac wedi cydnabod yn fy adborth anferthedd y gwaith yr ydych wedi ei fuddsoddi yn eu datblygiad. Er fy mod yn ymgynghorai statudol asesiadau llesiant a chynlluniau llesiant, nid oes rhwymedigaeth gyfreithiol arnaf i

ymateb. Ond, gwnaethom ddewis darparu ymateb manwl a heriol i roi'r adnodd gorau posibl i chi ar gyfer llunio'ch cynlluniau llesiant, ar adeg pan y gallai, yn ein barn, gael effaith ar y camau nesaf a gymerir gennych.

Mae fy nhîm wedi myfyrio ar yr ymagwedd a fabwysiadwyd gennym hyd yn hyn wrth weithio gyda chi, ac wedi trafod hyn gyda chi mewn cyfarfodydd a digwyddiadau diweddar, a hyn wedi rhoi cyfle i mi feddwl am y dull gorau o gyflawni fy nyletswyddau wrth eich cynghori yn y flwyddyn sy'n dod, a thu hwnt i gyhoeddiad eich cynlluniau llesiant cyntaf, i'ch galluogi i fanteisio i'r eithaf ar fy rôl fel gwarcheidwad cenedlaethau'r dyfodol. Hoffwn ddiolch i chi am eich cyfraniadau i'r trafodaethau; rwyf wedi fy nghalonogi gan eich syniadau.

Yn gyntaf, mae'n amlwg y byddech yn gwerthfawrogi sgwrs barhaus gyda fy nhîm wrth i chi ddrafftio'ch amcanion llesiant ar y cyd ac ystyried sut i gymryd camau i'w cyflawni, yn hytrach na chyfnwid dogfennau ar gychwyn a diwedd cyfnod o 14 wythnos. Rydych wedi adnabod, yn gywir, bod y cyfle hwn i geisio fy nghyngor yn wahanol i'r cyfnod ymgynghori ffurfiol ar gynlluniau llesiant ac mae'n bwysig ein bod yn cynnal sgwrs barhaus sy'n caniatáu i chi barhau i ennyn ymgyfraniad anffurfiol eraill yn y gwaith o ddrafftio eich amcanion a'r camau i'w cyflawni yn ystod y 14 wythnos yma - yn hytrach na 'rhoi'r gorau i weithio' ac aros am fy ymateb cyn parhau i ysgrifennu eich cynllun llesiant. Er hynny, mae'n ofynnol i mi, drwy ddeddf, roi ymateb ysgrifenedig i chi o fewn amserlen o 14 wythnos yn dilyn eich cais am gyngor.

Fel tîm bychan, mae parhau â'r sgwrs yn her wirioneddol ac rydym wedi gofyn i chi am eich mewnbwn ar y modd y gallem ddarparu adnoddau mewn dull teg ar gyfer gwneud hyn. Felly, ar lefel ymarferol, gofynnaf i chi ofyn am y cyngor hwn drwy gyfrwng e-bost (contactuscommissioner@futuregenerations.wales) gan anfon ataf eich amcanion llesiant drafft, unrhyw syniadau ar y camau y byddwch yn eu cymryd i'w diwallu, a'r person cyswllt mwyaf addas yn nhîm cymorth eich BGC i gysylltu â hi/ef wrth ymateb.

Yn dilyn derbyn eich e-bost yn gofyn am gyngor, bydd aelod o fy swyddfa yn cysylltu â chi i drafod eich gwaith hyd yn hyn gan drefnu telegynhadledda wedi hynny neu, lle mae hynny'n bosibl, i drefnu cyfarfod wyneb yn wyneb mewn man sy'n addas i bawb. Bydd y sgysiau hyn yn fy helpu i lunio cyngor ysgrifenedig i'w roi i chi ar ddiwedd yr amserlen 14 wythnos.

Roeddech yn gywir pan ddywedoch na fydd fy ymateb yn ddefnyddiol oni bai fod fy nghyngor yn gweddu i gyd-destun eich BGC a'r cyd-destun yr ydych yn gweithio o'i fewn. Felly, bydd fy nhîm yn adeiladu ar yr adborth a roesom i chi a'r berthynas ddiweddar a ffurfiwyd rhyngom wrth ymateb i'ch asesiadau llesiant, a fydd yn fy helpu i ddeall sut yr ydych yn gobeithio defnyddio lens y Ddeddf i'n helpu i weithio gyda'n gilydd yn wahanol. Credaf mai dyma'r ffordd orau o ddarparu cyngor defnyddiol i chi ar gyfer cymryd y camau ar gyfer cwrdd â'ch amcanion yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Dywedasoch wrthyf fod y sesiynau galw-mewn a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y broses o ddrafftio eich asesiadau'n ddefnyddiol iawn. Felly, byddwn yn ystyried cyflwyno sesiynau galw-mewn ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac yn ceisio sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r sesiynau galw-mewn a ddarparir gan Lywodraeth Cymru ble bynnag mae hynny'n bosibl.

Rwy'n awyddus i drefnu sgwrsiau cyfryngau cymdeithasol byw gyda chi ar adegau critigol yn ystod y flwyddyn er mwyn parhau ein sgwrs dros y cyfnod hwn a byddaf hefyd yn gofyn i chi fel BGCau a sefydliadau eraill sy'n bartneriaid i chi rannu dysgu drwy flogio ar ein gwefan a chyfrannu at ddigwyddiadau.

Gweithredu fel 'cysylltydd'

Yn ail, dywedasoeh wrthyf y gallaf chwarae rhan werthfawr fel 'cysylltydd'. Rwyf yn y sefyllfa ffodus o gael golygfa 'hofrennydd' o'r gweithgaredd ar draws Cymru ac mae fy nhîm yn parhau i gasglu tystiolaeth o arfer cenedlaethol a rhyngwladol. Gan weithio gyda phartneriaid, rwy'n awyddus i gysylltu BGCau â'i gilydd ac â phobl a allai fod ganddynt ddatrysiadau i'w meysydd ffocws.

Mae ein partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd wedi ein galluogi i gasglu gwybodaeth a fydd yn ffurfio adroddiad trosolwg ar themâu cyffredin, cyfleoedd a heriau yn deillio o'ch asesiadau llesiant. Un o'r pethau cyntaf yr wyf yn dymuno ei wneud yw cysylltu BGCau â'i gilydd, â chyrff cenedlaethol, â chysylltiadau academiaidd a fedr eu cynorthwyo ac â sefydliadau eraill sy'n gweithio i'r Ddeddf. Fel y cyfryw, rwy'n cynnal cyd-ddigwyddiad gyda Phrifysgol Caerdydd i lansio'r adroddiad trosolwg, rhannu'r dysgu yr ydym wedi ei gasglu a chreu cysylltiad rhyngoch â'ch gilydd ar Llun 5^{ed} Mehefin 2017. Rwyf hefyd yn adeiladu partneriaethau â sefydliadau academiaidd eraill i helpu i gynyddu'r sylfaen wybodaeth i helpu BGCau i ddatblygu a gweithredu eu cynlluniau llesiant.

Bydd fy nhîm hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i ennill y budd mwyaf posibl o ddigwyddiadau sydd ar ddod, cyfarfodydd rhwydwaith, cynadleddau a chyfarfodydd i gwrdd â chi a darparu rhaglen gymorth hwylus. Bydd hyn yn parhau tu hwnt i 2017/18 a'r bwriad yw eich cynorthwyo wrth i chi weithredu'r egwyddor datblygu cynaliadwy yng nghyd-destun eich BGC. Bydd hyn yn cynnwys:

- Eich cyfeirio at dystiolaeth a allai eich helpu i bennu'r camau yr ydych yn bwriadu eu cymryd i wireddu eich amcanion.
- Eich cyfeirio at ddulliau o weithio sy'n anelu at eich cynorthwyo wrth i chi fabwysiadu'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan ddefnyddio'r pum dull o weithio ac ystyried sut i facsimeiddio eich cyfraniad i'r saith nod llesiant;
- Cyfres o seminarau gwe a 'labordai cysyniadau' a fydd yn ffocysu ar y themâu a'r heriau sy'n dod i'r amlwg o'r asesiadau llesiant, yng nghyd-destun eich helpu i gynllunio llesiant ar y cyd.

Gobeithiaf y bydd y seminarau gwe, a'r 'labordai cysyniadau' yn arbennig, yn ofod diogel ar gyfer profi syniadau, rhannu dysgu ar y cyd, cymharu profiadau a darganfod cyfleoedd ar gyfer cydweithio ar faterion arbennig sy'n dod i'r amlwg.

2. Adnabod a dileu rhwystrau

Yn drydydd, mae llawer ohonoch wedi dod ataf i sôn am y rhwystrau sy'n eich atal rhag gweithredu'r egwyddor datblygu cynaliadwy, y pum dull o weithio a macsimeiddio'ch cyfraniad i'r saith nod llesiant cenedlaethol. Mae'r rhwystrau hyn yn amrywiol ac rwyf yn awyddus i wybod beth ydynt a beth yw'r ffordd orau i mi eich helpu i'w dileu (neu weithio o'u hamgylch!).



Rwyf wedi bod yn teithio i FGCau ledled Cymru i gwrdd â chi ac mae fy mhresenoldeb yn eich cyfarfodydd hyd yn hyn wedi cadarnhau fy marn fod BGCau yn bwysig a'u bod yn darparu cyfleoedd allweddol. Mae'r arweinyddiaeth a ddarperir gan FGCau yn ganolog ar gyfer manteisio ar y cyfle hwn i herio'r modd y mae Cymru'n gweithio i greu gwell dyfodol ar gyfer ein cenedl. Mae yna botensial mawr i adnabod heriau ar y cyd, agendâu ar y cyd, a'r angen rhesymegol am gydweithio a chyd-ganfod y blaenoriaethau a'r adnoddau sydd wedi eu casglu at ei gilydd.

Rwyf hefyd wedi dod i'r casgliad bod gan bob BGC ei gryfderau a'i wendidau. Mae'r rhain yn amrywio, ond credaf yn bendant y dylai aelodau fod yn mabwysiadu rôl weithgar wrth osod yr agenda ar gyfer eu BGC. Ni ddylent fod yn gwranddo'n oddefgar ar gyflwyniadau neu nodio'u pennau wrth wrando ar adroddiadau gwybodaeth; yn hytrach mae angen i'r digwyddiadau hyn ddod yn fannau o sgysiau anodd, fforymau lle mae materion yn cael eu trafod a mannau lle gall partneriaid gael eu dal i gyfrif os yr ydynt yn gwneud safiad yn erbyn newid y ffordd y maent yn gwneud busnes gyda'i gilydd.

Buaswn yn eich annog felly i fod mor onest â phosibl gyda mi a fy nhîm fel y gallaf roi cyngor i FGCau a chyrrff eraill ar ddileu neu oresgyn unrhyw rwystrau i weithio tuag at lesiant cenedlaethau ein dyfodol.

Gobeithiaf fod yr amlinelliad hwn o gyngor a chyfarwyddyd yn ddefnyddiol. Byddaf yn sicrhau bod gwybodaeth bellach ar gael drwy fy ngwefan (www.futuregenerations.walescenedlaethaurdyfodol.cymru) dros y misoedd sydd i ddod, ond, fel bob amser, buaswn yn croesawu eich barn ar hyn; os gwelwch yn dda e-bostiwch contactus@futuregenerations.wales os oes gennych unrhyw bryderon, ymholiadau neu sylwadau.

Dymuniadau gorau

Sophie Howe

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru